# Atodiad i Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) 2024: asesiad o'r effaith ar hawliau plant

## Cefndir

Mae'r Atodiad hwn yn darparu gwybodaeth ychwanegol i gydfynd â Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) 2024: asesiad o'r effaith ar hawliau plant (SUV CRIA), a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024. Mae asesiad o'r effaith ar hawliau plant yn caniatáu i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Maent yn helpu i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn ein penderfyniadau.

Roedd cwblhau'r SUV CRIA yn galluogi swyddogion i ystyried yr effaith a gafodd cyflwyno'r gwaharddiad ar gyflenwi fêps untro yng Nghymru, a ddaeth i rym ar 1 Mehefin, ar blant ac ar eu hawliau. Dylid darllen yr atodiad hwn gyda'r SUV CRIA ac mae'n crynhoi'r ymatebion a gafwyd gan blant a phobl ifanc yn dilyn y gwaith ymgysylltu ychwanegol a wnaed rhwng Gorffennaf 2024 a Mai 2025. Mae hefyd yn cyfeirio plant a phobl ifanc at sawl ffynhonnell wybodaeth i'w helpu i roi'r gorau i fêpio (Atodiad 1).

## Tystiolaeth ychwanegol

Plant yng Nghymru

Yn 2024, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar-lein i gasglu ymatebion gan blant a phobl ifanc ar gynigion i wahardd cynhyrchion plastig untro problematig, gan gynnwys fêps untro.

Fe rannodd Plant yng Nghymru, y corff ambarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru, yr ymgynghoriad gyda Chymru Ifanc. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Plant yng Nghymru i gynnal Cymru Ifanc. Mae Cymru Ifanc yn fodel cyfranogiad cynrychioliadol sy'n cryfhau lleisiau plant a phobl ifanc o fewn llunio polisïau. Gan ddefnyddio'r CCUHP a Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc fel sylfaen, eu nod yw sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd i gymryd rhan ac i godi materion sy'n bwysig iddynt, ac i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, swyddogion polisi, swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Ym mis Medi 2024, cafodd Llywodraeth Cymru adroddiad adborth gan Gymru Ifanc ar ein gwaharddiadau arfaethedig ar gynnyrch plastig untro problematig, gan gynnwys fêps untro. Cafwyd atebion i'r ymgynghoriad gan 16 o bobl ifanc rhwng 11 a 17 oed, ac mae crynodeb o'u hymatebion i'r gwaharddiad ar fêps untro i'w gael isod.

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y rhai a atebodd yn cydnabod nad oedd gan lawer o rieni yr wybodaeth gywir ac/neu y gallu i ddysgu eu plant i ymddwyn mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy. O ganlyniad, roeddent o'r farn mai yn yr ysgolion y dylid gwneud hyn. Fodd bynnag, awgrymodd rhai y gellid addysgu'r pwnc yn yr ysgol mewn ffordd ddifyrrach, a bod angen mwy o ddewis o bynciau amgylcheddol yn y cwricwlwm. Roeddent hefyd yn teimlo nad oedd ysgolion yn gosod esiampl dda trwy'r adeg (o ran darparu digon o gyfleusterau ailgylchu, er enghraifft) ac nad oeddent yn gwneud digon i annog pobl ifanc i ailgylchu.

O'r cynhyrchion a amlinellwyd yn yr arolwg, ystyriwyd mai’r gwaharddiad ar fêps untro a gafodd yr effaith mwyaf cadarnhaol ar yr amgylchedd. Pan ofynnwyd a fyddai'r gwaharddiad yn arwain at fwy yn ysmygu sigaréts yn lle hynny, cafwyd ymateb cymysg. Pan ofynnwyd a oeddent yn ymwybodol o’r cymorth sydd ar gael i roi’r gorau i fêpio, nid oedd y rhan fwyaf yn gwybod amdano. Dywedwyd y dylai ysgolion wneud mwy i ddysgu pobl ifanc am y niwed a ddaw o fêpio, gan gynnwys anfon gwybodaeth at rieni.

## Parhau i wella ymwybyddiaeth yn 2025

Gan ddefnyddio'r animeiddiad a'r ffeithlun i bobl ifanc (Atodiad 2) a gomisiynwyd gan Youth Friendly (gweler y SUV CRIA), parhaodd Llywodraeth Cymru â’r gwaith o wella ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r gwaharddiadau rhwng Ionawr a Mai 2025.

Rhannwyd y deunyddiau hyn gyda grwpiau sy’n cynrychioli plant, cylchlythyr Dysg, ysgolion, awdurdodau lleol, cyrff sy'n cynrychioli rhieni, gofalwyr, pobl anabl a grwpiau sy'n cynrychioli pobl ifanc lleiafrifoedd ethnig. Mae’r animeiddiad a'r ffeithlun yn egluro’r effaith negyddol y mae fêps untro yn ei chael ar yr amgylchedd. Fe ddefnyddiodd Arweinydd Addysg ac Ymgysylltu Prifysgol Abertawe y deunyddiau hefyd yn eu Sesiwn Addysg Gyfreithiol ar fêpio. Cafodd dolenni i'r deunyddiau eu cynnwys yn eu cylchlythyr Addysg Gyfreithiol a Hawliau Plant mewn Ysgolion hefyd, a anfonwyd i bob ysgol uwchradd yng Nghymru.

Roedd y ffeithlun hefyd yn gofyn pum cwestiwn am effaith y gwaharddiad ar ysmygu ac arferion fêpio er mwyn i blant a phobl ifanc rannu eu barn (Atodiad 3) os oeddent am wneud hynny. Cafwyd atebion gan wyth o bobl ifanc, ac mae crynodeb ohonynt isod.

Crynodeb o'r ymatebion

Rhannodd saith eu barn ar y gwaharddiadau, gyda thri yn cefnogi'r gwaharddiad a phedwar yn anghytuno. Roedd y rhai a anghytunai yn gwneud hynny am eu bod o’r farn nad oedd gwaharddiadau ar fathau eraill o ysmygu (e.e. sigaréts menthol ac ati) wedi llwyddo i leihau ysmygu.

Pan ofynnwyd a oeddent yn credu y byddai'r gwaharddiad ar fêps untro yn gwneud i bobl ifanc ddechrau ysmygu, roedd tri o’r farn y byddai a’r gweddill naill ai’n anghytuno neu’n ansicr. Roedd y rhai a anghytunai a’r rhai ansicr yn credu y byddai pobl ifanc yn fwy tebygol o brynu fêps y gellir eu hailddefnyddio yn hytrach na dechrau ysmygu, neu y byddent yn parhau i fêpio oherwydd eu blas, eu dyluniad neu eu hapêl gyffredinol, gan gofio bod pobl ifanc bob amser yn cael eu denu i roi cynnig ar ysmygu/fêpio ac yfed alcohol. Pan ofynnwyd a oeddent yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc sydd eisiau rhoi'r gorau i fêpio, dim ond dau a wyddai amdano, gyda chwech ddim yn gwybod.

Pan ofynnwyd sut y dylid rhoi’r wybodaeth i bobl ifanc am roi'r gorau fêpio, awgrymwyd y byddai hysbysebu ar holl lwyfannau’r cyfryngau cymdeithasol a’r cyfryngau yn effeithiol mwy na thebyg. Awgrymwyd rhoi posteri a hysbysiadau mewn arosfannau bws, ar drenau ac mewn gorsafoedd trên, mewn meddygfeydd, deintyddfeydd, fferyllfeydd, ysbytai, colegau, prifysgolion ac mewn ysgolion. Dywedodd dau ei bod yn rhy hwyr i wella ymwybyddiaeth pan fo’r person ifanc eisoes yn gaeth i nicotin ac, fel gyda rhai sy’n ysmygu, na fyddai’n cael unrhyw effaith. Pan ofynnwyd a hoffent ddweud unrhyw beth arall am fêps untro, atebodd un eu bod yn ddrwg i'r amgylchedd, a bod eu gwahardd felly yn fenter amgylcheddol (sy'n ‘wych’) yn hytrach na menter i achub pobl ifanc rhag fêpio.

## Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Mae'r dystiolaeth ychwanegol a gafwyd yn cyd-fynd â'r asesiad cychwynnol yn y SUV CRIA, sef y bydd y gwaharddiad ar fêps untro yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar hawliau plant, fel y'u diffinir yn y CCUHP.

Nid yw prif effeithiau'r polisi ar hawliau plant, sydd wedi'u crynhoi yn yr SUV CRIA, yn unol ag erthyglau perthnasol CCUHP a'i Brotocolau Dewisol, wedi'u newid.

**Bydd fersiwn addas i'r ifanc o'r SUV CRIA a'r atodiad yn cael ei gyhoeddi yn 2025.**

**ATODIAD 1**

Pobl Ifanc a Fepio – Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Gwybodaeth a Chanllawiau ar Fepio i Ddysgwyr Oedran Uwchradd yng Nghymru

Talk to Frank

Childline

Helpa Fi i Stopio

Cymorth gan y GIG i roi’r gorau i ysmygu/fêpio

Cymorth i bobl ifanc sydd eisiau rhoi’r gorau i fepio:

Ffoniwch 0800 085 2219, anfonwch neges destun yn dweud HMQ i 80818, neu ewch i https://www.helpafiistopio.cymru/.

# Gwahardd fêps untro

Mae Llywodraeth Cymru am ddiogelu'r amgylchedd, Cymru a'r blaned. Rydym ni eisoes wedi cymryd camau i atal sbwriel, ond rydym ni eisiau gwneud mwy!


Rydym ni am dorri i lawr ar y difrod mae gwneud a thaflu

fêps untro yn ei wneud i'r amgylchedd, bywyd gwyllt, ac iechyd pobl. Rydym ni hefyd am gyflymu'r newid mewn ymddygiad cwsmeriaid tuag at opsiynau y gellir eu hailddefnyddio ac sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd.

**O 1 Mehefin 2025 bydd cyfraith newydd yn atal siopau gwerthu fêps untro.**

**Mae fêps untro:**

- yn gallu cynnwys plastig
- yn cynnwys batri sy'n cynhesu hylif mae pobl yn anadlu i mewn
- yn dod mewn lliwiau llachar a gwahanol flasau
- yn gallu cynnwys nicotin (mae'r cyfan wedi'u gwahardd p'un a ydynt yn cynnwys nicotin ai peidio)
- **yn ddrwg i'r amgylchedd!**



Maen nhw'n torri i lawr i ficroblastigau.

Maen nhw'n anodd eu hailgylchu felly yn cyrraedd tomenni gwastraff.

Mae batris rhai fêps yn dal tân pan fyddant yn cael eu difrodi neu eu malu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mae bron i 5 miliwn o fêps untro yn cael eu taflu i ffwrdd yr wythnos. Bydd eu gwahardd yn gwneud gwahaniaeth mawr!!**

## O 1 Mehefin 2025:

**Ni all siopau werthu fêps untro.**

**Ni all busnesau a phobl roi fêps untro i ffwrdd.**

**Os byddant yn gwneud hynny, byddant yn torri'r gyfraith a byddant yn cael dirwy neu garchar.**

## Beth ydych chi'n ei feddwl?

Atebwch y cwestiynau a rhowch wybod i ni.





Beth yw eich barn chi?

## Cwestiynau

1. Beth ydych chi'n ei feddwl am y gwaharddiad?

2. Ydych chi'n meddwl y bydd gwahardd fêps untro yn arwain at bobl ifanc yn dechrau ysmygu?
   Ydw ○ Nac ydw ○ Ddim yn gwybod ○
   Rhowch reswm dros eich ateb os gwelwch yn dda.

3. Ydych chi'n ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc sydd am roi'r gorau i anweddu?
   Ydw ○ Nac ydw ○ Ddim yn gwybod ○

4. Sut ydyn ni'n dweud wrth bobl ifanc am roi'r gorau i fêpio?

5. A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud am fêps untro?

6. Pa fathau eraill o gynhyrchion untro y dylai Llywodraeth Cymru weithredu arnynt i ddiogelu ein hamgylchedd?